Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad

**Meithrinfa Ddydd Hapus Dyrfa**
**Ty Cambrian**
**Teras Glamor**
**Porth Tywyn**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA16 0LS**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015**

**gan**

**Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**©Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Ddydd Hapus Dyrfa yn feithrinfa ddwyieithog gyda Chyfnod Sylfaen cyfrwng Cymraeg i blant tair a phedair oed.  Mae wedi ei lleoli mewn adeilad sydd wedi`i hadeiladu`n bwrpasol ym Mhorth Tywyn ger Llanelli.  Mae'r feithrinfa wedi ei lleoli yn yr adeilad bresennol ers 2003 gan agor yn gyntaf yn 1996.  Mae'r Feithrinfa wedi newid perchnogaeth yn ddiweddar (Rhagfyr 2014).

Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu yn dod o Borth Tywyn gydag ychydig yn dod o drefi a phentrefi cyfagos.  Mae'r Feithrinfa wedi ei gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer 58 o blant o enedigaeth hyd at wyth mlwydd oed.  Ar hyn o bryd mae 18 o blant tair oed ar y gofrestr, ac o'r rhain mae16 yn cael eu hariannu.  Mae`r mwyafrif o'r plant yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, gyda nifer cymharol fach yn dod o gartrefi sy'n ddwyieithog.

Cymraeg yw`r prif gyfrwng addysgu a dysgu ac mae'r rhan fwyaf o`r plant yn mynd i'r ysgol gynradd Gymraeg leol yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.  Ychydig iawn sy`n cael eu cydnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r Feithrinfa ar agor o 7:30 y.b. tan 18:00 y.p. ar Ddydd Llun i Ddydd Gwener am 51 wythnos y flwyddyn.  Mae'r plant sy'n mynychu'r dosbarth Cyfnod Sylfaen yn dechrau eu diwrnod am 9.30 y.b. ac yn gadael am hanner dydd.

Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys dau ymarferydd profiadol sy'n rhannu`r cyfrifoldebau arwain (o fis Mawrth 2015).  Cafodd y ddarpariaeth feithrin ei arolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2009 ac ym mis Ebrill 2015 gan AGGCC.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- mae`r plant yn hapus, yn ymgartrefu`n gyflym ac yn teimlo`n ddiogel;
- mae llawer o`r plant yn gwrando`n astud ar storïau ac yn ymuno`n frwdfrydig â chaneuon Cymreig;
- mae bron yr holl blant yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau da at ddysgu;
- mae'r lleoliad yn darparu`r plant ag ystod eang o brofiadau dysgu;
- mae`r ymarferwyr yn annog y plant i fwyta'n iach a chadw'n lân;
- mae`r berthynas rhwng oedolion a phlant yn dda.

Fodd bynnag,

- nid yw asesu`n cael ei ddefnyddio'n ddigon da i roi darlun clir o gyflawniad pob plentyn, yn enwedig datblygiad eu medrau;
- nid yw canlyniadau`r asesu`n cael eu defnyddio`n ddigonol i gynllunio`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant;
- nid oes digon o gyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau meddwl a`u hannibyniaeth.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn ddigonol oherwydd;

- mae amcanion y lleoliad i sicrhau bod yr holl blant yn cael gofal da a`u trin â pharch yn cael eu cyflawni`n ymarferol;
- mae`r ymarferwyr yn cyd-weithio`n dda ac yn awyddus i sicrhau gwelliant yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgu`r plant;
- mae dogfen hunanarfanu`r lleoliad yn nodi`n glir y meysydd i`w gwella;
- mae`r lleoliad wedi`i staffio`n briodol;
- mae`r lleoliad yn derbyn cefnogaeth dda gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol.

Fodd bynnag,

- nid yw`r hunanarfarnu wedi cael digon o amser i effeithio ar safonau;
- nid yw`r gwendid yn yr asesu a`r cynllunio wedi`i nodi yn nogfen hunanarfarnu`r lleoliad;
- tanddatblygedig yw`r cynllunio ar gyfer hyfforddi staff;
- nid yw cyfrifoldebau`r staff wedi`u nodi`n glir.

## Argymhellion

A1 Datblygu gweithdrefnau asesu sy`n nodi cyflawniadau`r plant.

A2 Defnyddio canlyniadau`r asesu fel sail i gynllunio cyfleoedd dysgu.

A3 Sicrhau bod cyfleoedd dysgu`n cyfateb yn dda i allu`r plant ac yn eu herio.

A4 Darparu mwy o gyfleoedd i`r plant weithio`n annibynnol a datblygu eu medrau meddwl.

A5 Nodi cyfrifoldebau`r staff ar gyfer datblygu`r cwricwlwm.

A6 Darparu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y staff er mwyn iddynt ddatblygu eu galluoedd proffesiynol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae llawer o blant yn gwneud cynnydd priodol ar draws pob maes dysgu yn unol â'u gallu a'u cyfnod o ddatblygiad.

Mae llawer o blant yn gwrando'n astud ar storïau er bod rhai plant yn colli diddordeb yn fuan. Mae bron pob un yn ymateb yn brydlon i gyfarwyddiadau ac mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno'n frwdfrydig ag ystod o ganeuon a rhigymau Cymraeg. Roedd y mwyafrif yn deall cwestiynau sylfaenol ac mae lleiafrif yn ateb yn briodol yn y Gymraeg. Mae dealltwriaeth y plant hyn o`r iaith yn datblygu'n dda – mae eu dealltwriaeth yn well na'u gallu i siarad yr iaith. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o blant yn ddigon hyderus yn y Gymraeg i'w defnyddio mewn sgwrs wrth chwarae.

Mae ychydig o blant yn adnabod eu henwau ar fatiau bwrdd wrth baratoi ar gyfer amser byrbryd. Mae mwyafrif o`r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau, fel yn ystod amser stori, er mai ychydig iawn o blant cafodd eu gweld yn edrych ar lyfrau yn annibynnol.

Mae mwyafrif o`r plant yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu ac mae lleiafrif yn deall pwrpas ysgrifennu, fel gwneud rhestrau siopa yn eu siop deganau.

Mae llawer o blant yn datblygu sgiliau rhifedd digonol. Mae lleiafrif o blant yn cyfrif yn gywir i bump ac mae'r rhan fwyaf o blant yn didoli gwrthrychau yn ôl lliw neu faint yn gywir. Mae llawer o blant yn dechrau defnyddio iaith fathemategol, fel "mawr" a "bach", wrth, er enghraifft, grwpio pwmpenni. Mae`r plant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau TGCh, fel wrth ddefnyddio cyfrifiaduron llaw.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio offer bach, fel sisyrnau a brwsys paent yn llwyddiannus, fel wrth addurno lluniau llinell o bwmpenni. Maen nhw`n mwynhau gweithgareddau corfforol ac yn perfformio`n frwdfrydig, gan ddangos datblygiad da.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac mae bron pob un yn cymryd rhan weithredol yn fuan yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae lleiafrif yn dangos dyfalbarhad ac ymrwymiad am gyfnod rhesymol o amser, er enghraifft wrth chwarae yn y siop deganau llysiau.

Mae llawer o blant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agwedd dda at ddysgu. Mae`r plant yma`n dangos ystyriaeth dda o eraill, sydd wedi datblygu`n dda. Maen nhw`n cymryd eu tro ac mae lleiafrif yn dangos synnwyr o hunan-reolaeth sy`n datblygu.

Mae bron yr holl blant yn ymddwyn yn dda amser byrbryd. Maen nhw`n amyneddgar, yn cymryd eu tro, yn rhannu ac yn dangos hunan-reolaeth dda. Maen

nhw’n dweud “os gwelwch yn dda” a “diolch” yn aml heb anogaeth.  Mae bron pob un yn ymwybodol o`r angen am hylendid da drwy olchi eu dwylo cyn byrbryd.

Mae llawer o blant yn gwneud dewisiadau synhwyrol fel yn ystod amser chwarae rhydd.  Mae'r plant hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn y maen nhw`n ei wneud.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae`r lleoliad yn darparu ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr ar draws pob maes dysgu.  Mae pwyslais priodol ar chwarae ac ar blant yn dysgu trwy brofiadau uniongyrchol.  Er enghraifft, roedd y plant wedi casglu gwahanol luniau o bwmpenni a'u grwpio yn ôl eu lliw gan wneud graffiau bar i ddangos y nifer o ffrwythau o wahanol liw oedd wedi`u casglu.

Mae'r lleoliad yn darparu`r plant â chyfleoedd priodol i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o Gymraeg achlysurol.  Mae'r staff yn hyderus gan fod y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt ac maen nhw`n fodelau iaith da.  Mae hyn yn arwyddocaol o ran annog y plant i ddechrau defnyddio'r iaith. Gwneir defnydd da o rigymau a chaneuon Cymreig i ddatblygu iaith y plant, fel "brwsio, brwsio dannedd bach" yn ystod amser brwsio dannedd.

Mae cyfleoedd da yn cael eu defnyddio i annog y plant i ddatblygu eu sgiliau rhifedd, fel cyfrif a didoli gwrthrychau.  Mae cyfleoedd priodol yn cael eu darparu i`r plant ddatblygu eu sgiliau TGCh trwy ddefnyddio offer digidol.

Fodd bynnag, ychydig iawn o gynllunio sydd o brofiadau dysgu'r plant ac nid yw hyn wedi`i ddatblygu'n ddigonol.  Mae`r cynllunio sylfaenol yn nodi themâu a meysydd dysgu yn seiliedig ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Fodd bynnag, nid yw`r cynllunio i ddatblygu medrau`r plant ac i gyfateb y gweithgareddau i anghenion y plant yn cael ei wneud.  Yn ogystal, nid oes darpariaeth digonol i ddatblygu gallu`r plant i feddwl ac i chwarae`n annibynnol.  O ganlyniad, nid yw`r plant yn cael eu herio'n briodol bob amser ac nid yw eu dysgu yn cael ei hymestyn yn rheolaidd.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrwy ymweliadau â`r ardal, fel Cartref yr Hen Bobl gerllaw.

**Addysgu:  Digonol**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau sydd wedi`i hen sefydlu i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel.  Mae perthynas gadarnhaol rhwng ymarferwyr a phlant, yn seiliedig ar gyd hoffter.

Mae`r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen yn y modd mae`r plant yn dysgu drwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol.  Mae strategaethau addas yn cael eu defnyddio i ennyn diddordeb plant a`r adnoddau`n cael eu defnyddio'n dda i gefnogi'r dysgu.  Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n

cael eu harwain gan oedolion a chwarae rhydd. Nid yw`r addysgu, fodd bynnag, yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau`r plant nac yn eu hannog i weithio`n annibynnol. Nid yw`r gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plant bob amser yn ennyn eu diddordeb na`u hysgogi ac mewn achosion o'r fath nid ydynt yn aros gyda`r dasg. Nid oes digon o gyfleoedd i herio'r plant mwy galluog neu i ymestyn geirfa'r dysgwyr Cymraeg mwy abl.

Nid yw`r asesu na`i ddefnyd wrth gynllunio yn ddigonol. Mae ffeiliau asesu unigol yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am gyflawniad pob plentyn. Mae sylwadau o'r fath yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn darparu gwybodaeth am ddatblygiad sgiliau'r plant. Nid oes dyddiad na sylwadau ar enghreifftiau o waith y plant a`r dystiolaeth ddarluniadol. Nid yw`r cofnodion cyrhaeddiad yn darparu sylfaen addas ar gyfer cynllunio gweithgareddau pellach ac nid ydynt yn digon manwl i fod yn gofnod rhesymol o gynnydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau i gefnogi iechyd a lles y plant yn werthfawr ac mae'r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar. Mae cyfleoedd addas i godi ac i atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd bwyta'n iach a digon o gyfleoedd i blant fod yn brysur yn gorfforol. Mae`r plant yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd glendid ac yn gweithredu'n unol â hynny.

Mae`r ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn dda ac mae eu hadborth cadarnhaol i`r plant yn rhoi hwb i'w hyder ac yn eu galluogi i fod yn hunan-hyderus. Roedd llawer o`r plant yn sgwrsio'n synhwyrol gyda'r arolygydd. Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau personol a chymdeithasol da ac yn caffael safonau moesol gwerth chweil. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn annog gwerthoedd fel gonestrwydd, chwarae teg, parch at eraill ac egwyddorion sy'n helpu`r plant wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn unol â hynny. Mae ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant a dealltwriaeth o draddodiadau Cymru yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a pherfformio yn y Cartref i Hen Bobl cyfagos. Mae gwybodaeth o ddiwylliannau eraill yn cael ei datblygu drwy, er enghraifft astudiaethau o'r arferion sy'n gysylltiedig â Divali.

Nid oes unrhyw blant ar hyn o bryd sydd wedi`u nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Yn gyffredinol, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn annog y plant i ymddwyn mewn modd cynaliadwy trwy arbed bwydydd gwastraff, a lle bo'n briodol bwydo'r adar lleol. Mae papur gwastraff yn cael ei gasglu ar wahân ar gyfer ailgylchu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl weithgareddau ac adnoddau. Mae ethos hapus, croesawgar a chefnogol yma lle mae`r holl blant yn cael eu parchu fel unigolion ac mae gwahaniaethau yn cael eu parchu.

Mae`r ymarferwyr yn trin y plant yn deg ac mae eu barn yn cael eu gwerthfawrogi. Lle'n bosibl, mae eu syniadau yn cael eu hymgorffori yn yr addysgu ac mae hyn yn effeithiol wrth gynnal diddordeb a chymhelliant y plant.

Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r lleoliad yn cael ei gynnal yn dda ac yn ddiogel. Mae gan y lleoliad adnoddau priodol ac mae`r adnoddau`n cyfateb yn dda i anghenion y plant.

Mae defnydd da yn cael ei wneud o'r lle sydd ar gael tu fewn ac mae`r ardal hon yn cael ei gwella gan enghreifftiau o waith y plant. Mae geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn cael eu harddangos yn ddeniadol. Mae'r amgylchedd awyr agored wedi cael ei datblygu'n dda ers yr arolygiad diwethaf ac yn darparu amgylchedd dysgu gwerth chweil.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r lleoliad yn anelu at sicrhau bod pob plentyn yn cael gofal da, cefnogaeth dda a'u parchu fel unigolion. Mae`r lleoliad yn gwbl lwyddiannus wrth wneud hyn.

Mae rhieni yn gwerthfawrogi agosatrwydd y staff a bod eu plant yn hapus yn y lleoliad ac yn awyddus i fod yn bresennol. O ganlyniad, mae`r berthynas gyda rhieni a'u plant yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at ymdeimlad o gymuned.

Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n galed, yn gydwybodol ac yn awyddus i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant. Dangosir hyn yn dda gan y ddarpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer sicrhau lles plant. Fodd bynnag, llai datblygedig yw`r ddarpariaeth ar gyfer manteisio i'r eithaf ar safonau cyflawniad plant trwy ddarparu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau plant. Fodd bynnag, dim ond ers dechrau`r flwyddyn mae'r ymarferwyr cyfredol wedi bod yn eu swydd ac o ganlyniad wedi cael cyfnod byr o amser yn unig i ddatblygu eu cyfrifoldebau.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i gefnogi`r gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson.

Mae`r ymarferwyr yn cyfarfod bob wythnos i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y plant. Mae'r ddau ymarferydd yn cyfrannu syniadau, ond nid yw cyfrifoldebau unigol wedi cael eu nodi. Mae diffyg manylder yn y cynllunio ac nid oes system effeithiol ar waith i fonitro ac arfarnu`r ddarpariaeth. Nid yw anghenion, o ran datblygiad proffesiynol, wedi cael eu nodi.

Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac annog bwyta ac yfed yn iach.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae diwylliant gwerth chweil o hunanarfarnu yn datblygu o fewn y lleoliad.  Fodd bynnag, oherwydd y cyfnod cymharol fyr o amser nid yw hyn wedi cael digon o amser i fod yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn casglu gwybodaeth wrth y staff, rhieni, plant a sefydliadau allanol am ei berfformiad gan nodi`r hyn mae'n ei wneud yn dda a meysydd i'w gwella.  Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, gwell ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau tu allan ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau`r plant.

Fodd bynnag, mae`r cynllunio ar gyfer gwelliant ar adeg cynnar o ddatblygiad ac nid yw wedi cael digon o amser i gael effaith.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan y lleoliad ystod addas o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer y plant.

Mae'r partneriaethau gyda rhieni yn effeithio`n dda ar les y plant.  Mae`r trefniadau trosglwyddo o'r cartref yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.  Mae pecyn gwybodaeth yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni gan gynnwys manylion am ddyddiadau`r tymor, costau a chysylltiadau.  Mae`r rhieni yn datgan eu boddhad gyda'r lleoliad ac yn gwerthfawrogi`r polisi drws agored sy'n rhoi mynediad hawdd iddynt â`r staff.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol gyda'r ysgolion cynradd y mae'r plant yn eu mynychu.  Mae`r plant yn elwa o ymweld â'r ysgolion a dod i adnabod yr athrawon derbyn.

Mae cysylltiadau da gyda'r gymuned, fel Cartref yr Hen Bobl.  Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol gydag ymarferwyr cymwys a phrofiadol.  Mae gan y leoliad adnoddau addas i gwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn siaradwyr Cymraeg rhugl sy`n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygu medrau iaith y plant.  Fodd bynnag, nid yw cyrsiau hyfforddiant preffesinol wedi cael amser i effeithio’n bositif ar y cynllunio.

Mae gwariant yn cael ei adolygu ac yn ddiweddar mae`r cronfeydd wedi cael eu cyfeirio`n dda at wella'r ddarpariaeth y tu allan.  Mae hyn wedi bod yn effeithiol wrth godi safonau cyflawniad y plant.

O ystyried y canlyniadau sy`n cael eu cyflawni gan y plant a'r diffygion yn y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*denotes the benchmark - this is a total of all responses since September 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'ngryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'ngryf | Don't know<br>Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'nfodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn ddayn y lleoliad. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 7 | 2 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 70% | 20% | 10% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 8 | 6 | 2 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 6 | 3 | 1 | 0 | 0 | Rwy'ncael gwybodaeth gyson am gynnydd fy |
| | | 60% | 30% | 10% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'ngryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'ngryf | Don't know<br>Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 6 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 9 | 8 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 8 | 1 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaethdda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 80% | 10% | 10% | 0% | | |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

Y**r arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliadac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |